Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Practis Deintyddol Castle Street

8 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-3897-2
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .... 2
2. Methodoleg .... 2
3. Cyd-destun .... 4
4. Crynodeb .... 5
5. Canfyddiadau .... 6
   - Profiad y Claf .... 6
   - Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .... 8
   - Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .... 11
   - Ansawdd yr Amgylchedd .... 14
6. Y Camau Nesaf .... 15

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Castle Street, 24-25 Stryd y Castell, Tredegar yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 8 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Castle Street yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Tredegar ym Mlaenau Gwent. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Castle Street yn bractis GIG yn bennaf ond mae'n darparu nifer fach o wasanaethau deintyddol preifat hefyd.

Mae Practis Deintyddol Castle Street yn bractis hyfforddi wedi'i hen sefydlu ar gyfer deintyddion gyda Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion). Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd un o'r deintyddion yn y practis yn dilyn blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol dan arweiniad y prif ddeintyddion.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys dau brif ddeintydd sy'n berchen ar y practis ac un deintydd dan hyfforddiant), pedair nyrs (gan gynnwys dwy dan hyfforddiant) a thri aelod o staff derbynfa.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Castle Street yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda. Roedd tystiolaeth a welsom yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon uchel.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Trwy arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn fodern ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 28 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Hefyd, gwnaethom siarad â phedwar claf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn cymryd diddordeb personol ynof i, ac oherwydd hyn mae dod i'r practis yn gosod llai o straen arnaf ac mae ymdeimlad o deulu yma."*
>
> *"Mae'r staff yn ofalgar iawn ac yn barod eu cymwynas.Maen nhw'n gwneud i chi deimlo'n gyfforddus."*
>
> *"Mae'r driniaeth a'r gwasanaeth sy'n cael eu darparu yn dda iawn. Mae'r staff yn groesawgar. Mae safon yr hylendid yn ardderchog."*
>
> *"Mae hwn yn bractis da iawn."*
>
> *"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn.Gofal deintyddol o'r radd flaenaf."*
>
> *"Triniaeth ardderchog."*
>
> *"Rydw i wastad wedi bod yn fodlon ar y driniaeth. Mae'r derbynyddion bob amser yn gwrtais a chroesawgar. Mae'r deintyddion bob amser yn gwneud i mi deimlo fel ffrind (yn hapus i'm gweld).Dydw i ddim am gael fy nhrin yn unlle arall. Diolch."*

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis a bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar wefan y practis.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym os oedd angen.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa / man aros. Roedd gan y practis wefan hefyd oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gleifion, ac roedd hon yn glir ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael yn y mannau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o ganser y geg. Gwelsom fod nifer o daflenni gwybodaeth hefyd ar gael yn Gymraeg. Gwelsom hefyd arddangosfa fawr am faint o siwgr sydd mewn diodydd poblogaidd a oedd yn atyniadol i'r llygad. Roedd yr arddangosfa'n defnyddio darluniau oedd yn golygu ei bod yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion.

Roedd gan y practis system dda ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd trwy gynnal arolygon cleifion bob chwe mis. Gwelsom fod y practis wedi dadansoddi canlyniadau arolygiadau ac wedi cynhyrchu adroddiad byr oedd yn crynhoi'r canfyddiadau a chasgliadau oedd yn rhoi sylw i unrhyw newidiadau angenrheidiol posib yn y practis. Mae hyn yn enghraifft dda o sut mae'r practis yn defnyddio adborth gan gleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Pan gawsant eu holi am gwynion, dywedodd 14 o gleifion wrthym nad oeddent yn siŵr sut i gwyno. Fodd bynnag, gwelsom fod y polisi cwynion yn cael ei arddangos yn y ddwy ystafell aros, roedd gwybodaeth am gwyno yn cael ei chynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion ac roedd polisi cwynion llawn ar gael ar wefan y practis.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi i gleifion mewn modd diogel. Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda. Roedd tystiolaeth a welsom yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon uchel.**

### Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y tair ystafell driniaeth yn y practis a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i gyd yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi eu trefnu'n dda. Roedd yr holl arwynebau yn rhydd rhag annibendod fel y gellid eu glanhau yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o'r arferion glanhau dyddiol oedd yn cael eu cyflawni a'u cofnodi'n glir gan y nyrsys. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod dyfeisiadau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

### Dadheintio offer deintyddol

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod prosesau addas ar waith i atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd yr ystafell wedi'i threfnu mewn ffordd addas ar gyfer glanhau offer yn effeithiol. Roedd system hefyd i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu defnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gwelsom fod y polisi rheoli heintiau yn cael ei arddangos ar y wal. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodi wedi cael eu cwblhau ar gyfer gwirio a chynnal a chadw offer glanhau bob dydd. Roedd gan y practis lyfr cofnodi dyddiol hefyd ar gyfer gwiriadau eraill oedd yn cael eu cyflawni gan y nyrsys. Roedd yr holl lyfrau cofnodion wedi cael eu cwblhau i safon uchel. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system dda ar gyfer sicrhau bod offer glanhau yn gweithio'n iawn, fel y gellid glanhau offer deintyddol yn effeithiol.

Roedd sinciau penodol ar gyfer golchi dwylo er mwyn helpu i reoli heintiau ac roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff oedd yn cyflawni'r gwaith o ddadheintio. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar weithdrefnau dadheintio / rheoli heintiau. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau diweddar ac wedi defnyddio'r offer archwilio a ddatblygwyd gan

Brifysgol Caerdydd, fel sy'n cael ei argymell gan ganllawiau penodolMemorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[4] WHTM 01-05.

## Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

## Offer radiograffeg (pelydr-X)

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant priodol ar ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion am yr offer a'r gweithdrefnau pelydr-X i'r staff eu dilyn, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

## Offer meddygol brys a meddyginiaeth frys

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth ar gael i staff pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar gyfer sicrhau bod cyfarpar dadebru a meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod siartiau llif a ddefnyddir mewn achosion brys ar waliau'r ystafelloedd triniaeth, ac roedd siartiau llif ar gyfer achosion brys meddygol eraill wedi'u cynnwys gyda'r feddyginiaeth frys er mwyn hysbysu staff am ba weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol, a mynediad at offer a chyffuriau achub bywyd, i'w galluogi i ymateb yn brydlon pe bai un o'r cleifion yn llewygu.

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o wyth o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod cadw cofnodion cleifion o safon uchel.

[4]Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd y practis yn annog cleifion i ystyried rhoi'r gorau i ysmygu ac roedd gwybodaeth a ffurflenni atgyfeirio at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu ar gael i gleifion. Gwelsom hefyd fod rhai aelodau o staff wedi cynnal cyrsiau hyfforddiant ar roi'r gorau i ysmygu. Roedd hyn yn golygu bod rhoi'r gorau i ysmygu'n cael ei annog yn y practis.

Roedd triniaethau ac opsiynau yn cael eu hesbonio i gleifion ar lafar, ond roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ysgrifenedig i esbonio risgiau a buddiannau gwahanol driniaethau, oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion pan oedd yn briodol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael digon o amser a gwybodaeth berthnasol i ystyried eu hopsiynau triniaeth.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion.Trwy arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.**

Dau brif ddeintydd y practis yw cydberchnogion annibynnol Practis Deintyddol Castle Street. Y prif ddeintyddion oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd . Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y prif ddeintyddion. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau gyda'r deintyddion eu bod yn darparu lefel uchel o ofal a'u bod yn cydymdeimlo â'u cleifion ac yn awyddus i weithio er budd gorau'r claf bob amser.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, ac roedd system addas ar gael i sicrhau bod y polisïau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod y staff yn ymwybodol ohonynt. Gwelsom fod gan y staff raglen sefydlu gynhwysfawr oedd yn cynnwys y polisïau mwyaf pwysig. Roedd hefyd llawlyfr i'r staff oedd yn cynnwys crynodeb o bolisïau'r practis. Gwelsom o nodiadau cyfarfodydd fod polisïau hefyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff.

Dywedodd un o'r prif ddeintyddion wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal oddeutu bob rhyw dri i bedwar mis. Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cyfarfodydd diweddar oedd yn cofnodi manylion trafodaethau a chamau gweithredu yn sgil y cyfarfodydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond y byddent hefyd yn teimlo'n gyfforddus i leisio pryderon gyda'r prif ddeintyddion ar unrhyw adeg.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol, gan gynnwys y prif ddeintyddion. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi.

Mae'r practis yn bractis hyfforddi sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer deintyddion, ac roedd un deintydd yn dilyn blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol. Roedd y deintydd cyswllt hefyd wedi bod yn hyfforddai yn y practis ac wedi cael ei gyflogi wedi hynny. Nid oedd y deintydd dan hyfforddiant yn gweithio yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad ond dywedodd y deintydd cyswllt y bu i ni siarad ag ef eu bod yn derbyn cefnogaeth dda gan y prif ddeintyddion ac yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol cael trafodaethau clinigol gyda'i gilydd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod y deintyddion yn cynnal amryw o archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd ac roedd y dogfennau yn cael eu cadw mewn ffeil fawr. Dywedodd un o'r prif ddeintyddion wrthym eu bod hefyd yn cynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda phractis deintyddol arall a'u bod yn credu eu bod wedi bod yn gyfle dysgu defnyddiol. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod staff wedi derbyn hyfforddiant deintyddiaeth matrics aeddfedrwydd (math o archwiliad sicrhau ansawdd). Roedd hyn yn golygu bod gan y practis drefniadau llywodraethu clinigol addas ar waith i helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod contractau cyflogi ar waith ar gyfer yr holl staff.

Gwelsom enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn derbyn triniaeth gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol ac sy'n hyderus a chyfarwydd â'u man gwaith. Roedd ffeiliau staff yn drefnus ac roedd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom hefyd ganfod bod gan holl aelodau eraill y staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cyflogaeth.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol trwy'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Er mai dim ond un gŵyn ddiweddar roedd y practis wedi ei derbyn, gwelsom fod trefniadau addas ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon (cwynion). Roedd gan y practis hefyd daflen grynodeb a oedd yn rhoi manylion am y cwynion a dderbyniwyd a dyddiadau camau gweithredu a gymerwyd. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth am gwynion yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur. Roedd cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi'n briodol ar system electronig.

Gwelsom fod y broses gwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau yn y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella', ac roedd yn cynnwys rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gŵyn. Gwelsom

fod gan y practis weithdrefn gwyno hefyd i gleifion oedd yn derbyn triniaeth breifat a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis yn lân, yn fodern ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.**

Mae'r practis wedi'i leoli yn agos i ganol tref Tredegar. Mae gan y practis dair ystafell driniaeth, un ar y llawr daear a dwy ar y llawr cyntaf. Nid oes gan y practis faes parcio neilltuedig ar gyfer cleifion, ond mae llefydd parcio ar gael am ddim mewn maes parcio cyhoeddus ger y practis.

Mae mynediad at y practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac roedd fframiau'r drysau drwy gydol llawr daear y practis yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Nid oes lifft i'r llawr cyntaf, ond gellid trin cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear. Roedd dolen sain hefyd ar gael i gynorthwyo cleifion gyda chymhorthion clyw.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis yn lân ac yn daclus ac yn ddigon golau, ac roedd yn darparu amgylchedd dymunol i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd y mannau aros a'r dderbynfa o faint addas i nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd gan y practis un toiled hygyrch neillryw mawr iawn i gleifion ar y llawr daear ac un toiled hygyrch neillryw i staff ar y llawr cyntaf. Roedd y ddau doiled i'w gweld yn lân, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau ymolchi dwylo addas er mwyn rheoli heintiau.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis ac arno oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd enwau, cymwysterau a rhifau cofrestriad Cyngor Deintyddol Cyffredinol y staff yn cael eu harddangos ger y fynedfa ac ar boster yn y dderbynfa. Roedd prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Roedd arwyddion ar yr allanfeydd tân ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod mesurau a systemau ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd copïau electronig wrth gefn yn cael eu cadw ar ddyfais allanol bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch ac i warchod cleifion a'u gwybodaeth.

## 6. Y Camau Nesaf

Gan na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn, nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella (Atodiad A).